

Dechrau wrth fy Nhraed


Sonja Povey 1900639
ECAD4009-C

PWY YW'R GYMUNED?

Byddai enghraifft o arfer da cysylltiadau rhwng y disgybl, gymuned a'r ysgol yn cael ei ddefnyddio er mwyn gosod targedau a disgwyliadau ar gyfer pob ysgol. Un enghraifft ydi ddefnyddio llais y disgybl (Estyn, 2016). Dangosir ymchwil a gafodd ei gynnal gan Estyn bod defnyddio llais y disgybl yn annog ethos ysgol, gan ei fod yn rhoi rhyddid i blant gynnig syniadau ynglŷn â'r pethau a ddylid cael ei wneud yn yr ysgol a'r cyfleoedd a byddai yn fuddiol ar eu cyfer yn y gymuned. Anogir yr ysgol i roi hyfforddiant arbenigol i staff fel eu bod yn gallu rhoi fwy o gyfleoedd i blant mynd allan a manteisio ar yr hyn sydd ar gael iddyn nhw. Datblygir hyn hyder yn y plant i siarad am yr hyn sydd angen arnynt, amgylchedd cadarnhaol i'r ysgol lle mae plant yn ffynnu gan eu bod yn gwybod bod eu hanghenion yn cael ei gwrdd, a chymuned sydd gyda ffydd yn yr ysgol gan eu bod yn dangos eu bod yn cymryd gofal o'r plant y maent yn ei addysgu ac yn parchu'r hyn sydd yn mynd ymlaen yn y gymuned agos.



Un ddamcaniaeth sydd yn cefnogi pwysigrwydd amgylchedd cymdeithasol ydi ddamcaniaeth Urie Bronfenbrenner (1917). Dywed y ddamcaniaeth yma bod yr amgylchedd y mae plant yn tyfu i fyny ynddo yn cael effaith ar y ffordd mae plant yn ei feddwl, yn ei theimlo a'r pethau y maent yn credu ynddo. (Exploring your Mind, 2019) Dywed Bronfenbrenner bod yna 5 system wahanol sydd yn cydweithio er mwyn creu amgylchedd sydd yn gadarnhaol ar gyfer plant. Caiff y grwpiau yma ei greu gan weld pwy sydd yn agosaf i'r plentyn ac felly pwy sydd yn cael yr effaith mwyaf ar y plant.



Y DYSGWR



Bydd gan y dysgwyr sydd mewn ysgol cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned oll. Caiff hyn ei ddangos oherwydd bod y plant yn byw yn y gymuned, ac felly yn rhan o'r hyn sydd yn digwydd yno, ac yn gyfarwydd gyda'r fath o le yw e. Er enghraifft, yn fy ysgol leoliad, ar y funud mae'r dysgwyr yn gweithio gyda'r gymuned leol er mwyn gwneud yr eisteddfod cylch, ac sydd yn dod a phlant o ysgolion gwahanol at ei gilydd er mwyn cystadlu. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn hyn hefyd wrth cymhorthu'r plant wrth iddynt ymarfer, ac yn galluogi i rai darnau cael ei gynnal mewn ysgol ei hun. Caiff llais y disgybl hefyd ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod y gymuned a'r ysgol yn gwrando ar yr hyn sydd yn bwysig ar gyfer y plant.



Y GYMUNED

Mae'r gymuned yn cynnwys pobl fel rhieni, ffrindiau'r ysgol a busnesau lleol. Caiff y gymuned ei gynnwys yn y pethau mae fy ysgol leoliad i yn ei wneud drwy gael cyfleoedd i ddod i ymweld â'r ysgol i wneud amryw o bethau, er enghraifft caiff fusnesau weithiau cyfleoedd i ddod i mewn a gwneud gweithdy gyda phlant, neu yn cael gwahoddiad i ddigwyddiadau mae'r ysgol yn ei gynnal. Byddai ddamcaniaeth Robert Owen (1818) yn gallu cefnogi'r pwysigrwydd o gael perthynas da gyda'r gymuned gan ddywed ei ddamcaniaeth bod angen i blant cael amgylchedd sydd yn gadarnhaol er mwyn gallu dysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol fel eu bod yn buddio yn llawn ohono.



YR YSGOL



Yn fy ysgol leoliad, mae yna gysylltiadau clir sydd yn cael ei weld ar draws yr ysgol gyfan rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Enghraifft o hyn ydi lluniau o ymweliad gyda busnesau lleol, neu gyda'r orsaf dan agosaf i fyny ar waliau ar hyd yr ysgol. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r pethau sydd yn mynd ymlaen yn eu cymuned nhw fel nad ydynt yn methu allan ar gyfleoedd amrywiol a fyddai yn ymestyn eu dysgu. Dywed ddamcaniaeth John Dewey (1899) bod addysg angen cael ei seilio ar sefyllfaoedd go iawn ym mywyd, ac felly mae angen i ysgolion ddefnyddio'r holl adnoddau a chysylltiadau sydd ganddynt gyda'r gymuned er mwyn defnyddio pobl o broffesiynau gwahanol i addysgu plant.

Mae'r gymuned lle leolir fy ysgol lleoliad yn gymuned sydd yn cael ei ystyried fel un sydd ddim yn dioddef o lawer o dlodi, sydd yn cael ei ddangos yn ystadegau'r ysgol gan na ddim ond 9% o'r 482 disgybl sydd yn cael cinio ysgol am ddim. (Estyn, 2017) (Fy Ysgol Leol, 2019)

Mae'r ysgol mewn ardal sydd yn:

- Mwyafrif Gymraeg – mae mwyafrif o'r disgyblion yn fy nosbarth i yn dod o deuluoedd sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf adref.
- Mwyafrif gydag ethnigrwydd Gwyn-Prydeinig – dim ond llond llaw o blant sydd yn dod o ethnigrwydd sydd yn wahanol ar draws yr ysgol i gyd.
- Mae'n hefyd yn ardal economaidd da – yn ôl Fy Ysgol Leol, mae yna ddigon o gyllideb ar gyfer pob plentyn fel eu bod yn gallu cael ddigon o gyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial.
- Brif grefydd yr ardal lle leolir fy ysgol ydi Cristnogion – llond law bach iawn o blant sydd ddim yn dilyn y grefydd yma, a chaiff hyn ei barchu wrth i'r ysgol gynnal pethau fel gwasanaethau a dathlu gwyliau gwahanol fel y Nadolig a'r Pasg, gan gynnal digwyddiadau er enghraifft sioeau Nadolig ar gyfer y gymuned leol, lle caiff pawb mewnbyn a phawb yn cael cyfleoedd i ymuno.

Rhestr cyfeirnod

Estyn, 2017, *Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Dewi Sant*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gymraeg%20Dewi%20Sant.pdf> (cyrchwyd: 26/1/2020)

Fy Ysgol Leol, 2019, *Ysgol Gymraeg Dewi Sant*, ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6692371?lang=cy> (cyrchwyd: 26/1/2020)

Solid Rock or Shrinking Sand, 2010, *Let's Work Together Folks!*, ar gael yn: <http://mypersonalramblingsandopinions.blogspot.com/2010/04/lets-work-together-folks.html> (cyrchwyd: 27/1/20)

Go Momentum, 2013, *What Kind of Learner are you?*, ar gael yn: <https://www.slideshare.net/GoMomentum/personas-learning> (cyrchwyd: 27/1/20)

Clipart, 2019, *School Building Clipart*, ar gael yn: <http://cliparts.co/clipart/2895222> (cyrchwyd: 27/1/20)

CHL, 2018, *Communtity Health*, ar gael yn: <https://healthandlearning.org/ourwork/community-health/> (cyrchwyd: 27/1/20)

Estyn, 2016, *'Pupil voice' benefits pupils and helps schools to improve*, ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/news/'pupil-voice'-benefits-pupils-and-helps-schools-improve> (cyrchwyd: 27/1/20)

Bellflower Unified School District, 2019, *Jump Start and Transitional Kindergarten*, ar gael yn: <https://www.busd.k12.ca.us/domain/56> (cyrchwyd: 27/1/20)

Dreamstime, 2019, *Teamwork*, ar gael yn: <https://www.dreamstime.com/stock-photo-teamwork-image12050130> (cyrchwyd: 27/1/20)

Exploring Your Mind, 2019, *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*, Ar gael yn: <https://exploringyourmind.com/bronfenbrenners-ecological-systems-theory/> (cyrchwyd: 28/1/20)